

**Arolygiad o dan Adran 28  
Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol y Gorlan  
Tremadog  
LL49 9RN**

**Rhif yr Ysgol: 6612110**

**Dyddiad yr Arolygiad: 22 Ebrill 2008**

**gan**

**Jean Marshall  
78668**

**Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mehefin 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1117607**

**® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Y Gorlan fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol y Gorlan rhwng 22/04/2008 a 24/04/2008, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Jean Marshall. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	1
<b>Argymhellion</b>	6
<b>Safonau</b>	6
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	9
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	12
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	14
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	14
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	16
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	17
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	18
Dan bump oed	18
Mathemateg	22
Dylunio a thechnoleg	23
Daearyddiaeth	24
Cerddoriaeth	25
Addysg gorfforol	25
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	27
<b>Atodiadau</b>	28
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	28
2 Data a dangosyddion ysgol	28
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	29
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	30
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	31

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Ysgol gynradd ddwyieithog wedi ei lleoli ym mhentref Tremadog yng Ngwynedd yw Ysgol y Gorlan. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos sef, Golan, Cwmystradllyn, Penmorfa, Treflys a Phrenteg.
2. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser i'r dosbarth meithrin, yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 16 o blant meithrin rhan amser a 106 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol.
3. Er mai dim ond tua hanner y disgyblion sy'n dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn brif iaith cyfathrebu, mae oddeutu 80% ohonynt yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Disgrifir yr ardal gan yr ysgol, yn gyffredinol, fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ond daw'r disgyblion o gefndiroedd amrywiol. Mae canran y disgyblion (10% ) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol.
4. Mae 14 o ddisgyblion ( 13%) wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
5. Addysgir y disgyblion gan bump o athrawon llawn amser, gan gynnwys y pennaeth, ac un athrawes ran amser. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Rhagfyr 1992 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2002.
6. Derbyniodd yr ysgol arolygiad safonol y tro hwn.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Prif flaenoriaethau'r ysgol yn ôl y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) am y flwyddyn 2007-2008 yw:
  - parhau i sefydlu a datblygu strategaeth ymddygiad ysgol gyfan;
  - paratoi ar gyfer cyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen;
  - gwella'r ddarpariaeth a safonau technoleg gwybodaeth trwy barhau i sicrhau cyflenwad digonol a'r defnydd effeithiol o gliniaduron; a
  - parhau i ddatblygu'r cyswllt gyda'r ysgol uwchradd.

### Crynodeb

8. Mae hon yn ysgol lle mae diwylliant o ragoriaeth yn amlwg yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, ac yn y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol. Mae'n cynnig gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd rhagorol i'r disgyblion.

## Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

<b>Cwestiwn Allweddol</b>	<b>Gradd arolygu</b>
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 1
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 1

## Safonau

9. Mae safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

<b>Safonau cyflawniad disgyblion</b>	<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
	59%	41%	0%	0%	0%

10. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn rhagori ar Darged Cynradd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2010 (98% gradd 3 neu well).
11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
12. Barnwyd safonau yn y meysydd dysgu ar gyfer plant o dan bump oed fel a ganlyn:

<b>Meysydd dysgu</b>	<b>Plant oed meithrin</b>	<b>Plant oed derbyn</b>
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 2	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 2	Gradd 1

13. Mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

<b>Pynciau</b>	<b>Gradd Cyfnod allweddol 1</b>	<b>Gradd Cyfnod allweddol 2</b>
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 1	Gradd 1

14. Mae safonau a chynnydd disgyblion trwy'r ysgol ym medrau allweddol siarad a gwrando yn y Gymraeg, ac yn eu medrau dwyieithog, yn rhagorol. Mae safonau mewn darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 1 yn dda, ac yn rhagorol erbyn cyfnod allweddol 2.
15. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o fedrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn gwahanol feysydd cwricwlaidd.
16. Mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a 2, dros dreigl tair blynedd, mae bron pob un o'r disgyblion nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau disgwylidig, ac mae canran uchel yng nghyfnod allweddol 2 yn cyrraedd lefelau uwch na'r norm.
17. Mae pob disgybl trwy'r ysgol yn cyrraedd ei botensial wrth ddysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r hyn maent yn ei wneud mewn gwahanol wersi a dangosant ymwybyddiaeth dda iawn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.
18. Mae'r safonau a'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol, a'u medrau dysgu yn rhagorol. Maent yn gweithio'n frwdfrydig a chynhyrchiol gan wneud ddefnydd rhagorol o'u medrau creadigol a'u gallu i gydweithio heb oruchwyliaeth gyson wrth ddatrys problemau.
19. Mae safonau presenoldeb yn dda ac mae safonau ymddygiad y disgyblion yn rhagorol.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

20. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
54%	46%	0%	0%	0%

21. Mae'r canrannau hyn yn rhagori ar Darged Cynradd LICC ar gyfer 2010 (80% gradd 2 neu well).
22. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys arbenigedd a gwybodaeth gadarn ac arloesol yr athrawon o'r cwricwlwm, cynllunio gwersi'n fanwl a rhannu amcanion a deilliannau dysgu gyda'r disgyblion, anogaeth i ddisgyblion feithrin a rhannu eu syniadau eu hunain a dod i benderfyniadau wrth ddatrys problemau, a darparu cyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol.



23. Mae nodweddion da yr addysgu yn cynnwys dulliau addysgu amrywiol sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, cyflwyniadau bywiog, profiadau ysgogol, a phwyslais ar ddysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd.
24. Mae'r trefniadau asesu yn rhagorol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn, yn asesu eu gwaith yn fanwl ac yn defnyddio'r asesiadau yn gyson wrth gynllunio gwaith pellach.
25. Mae'r adroddiadau blynyddol i'r rhieni o ansawdd da ac yn cyfarfod yn llawn â'r gofynion statudol. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt ddwywaith y flwyddyn i drafod gwaith eu plant gyda'r athrawon.
26. Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol a'r modd y mae'n ymateb i anghenion dysgu ystod y disgyblion yn nodwedd ragorol. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, mae wedi ei gynllunio'n drylwyr a meddylgar ac mae'n sicrhau mynediad cyfartal i bob disgybl.
27. Mae'r ysgol yn cynllunio dysgu ac addysgu arloesol yn dilyn profiadau rhai o'r athrawon wrth ymweld â Tsieina a Lesotho a'r cysylltiadau a sefydlwyd gyda'r gwledydd hyn. Mae'r cyfleoedd a ddarperir yn rheolaidd i'r disgyblion ymweld â manau o ddiddordeb addysgol ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn rhagorol.
28. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol.
29. Sefydlwyd perthynas gref rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r rhieni'n derbyn llythrau a thafleuni gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol yn rheolaidd, ond er hyn, mae rhai ohonynt yn awyddus i dderbyn gwybodaeth fwy manwl am y gwaith cartref sy'n cael ei osod ac am themâu'r dosbarthiadau o dymor i dymor.
30. Mae cymdeithas 'Cyfeillion Y Gorlan' yn cynnal nifer helaeth o weithgareddau ac yn codi symiau sylweddol o arian i brynu adnoddau gwerthfawr i gefnogi'r cwricwlwm.
31. Sefydlwyd partneriaeth ragorol gydag ysgolion eraill a cholegau addysg bellach.
32. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a gwybodaeth y disgyblion am fyd gwaith a mentergarwch yn rhagorol. Mae pawb sy'n ymwneud â'r ysgol yn ymwybodol o'i hymrwymiad i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang trwy'r cynllun Ysgolion Gwyrdd.
33. Mae'r ysgol yn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer dysgu gydol oes trwy ddarparu amrediad o brofiadau dysgu sy'n annog disgyblion i gymryd peth cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, ac i fod yn fentrus a hyblyg.
34. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgwr sydd ag ystod eang o weithdrefnau ar gyfer cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd rhagorol i'r disgyblion. Mae'r rhieni a fynegodd farn yn y cyfarfod cyn arolygiad, ac wrth ymateb i'r holiadur, yn hapus iawn ynghylch y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant.
35. Trwy raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol gynhwysfawr, a threfn o gynghorau dosbarth a chyingor ysgol, caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i drafod teimladau ac i fynegi barn.

36. Mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles disgyblion yn rhagorol trwy brosiectau sy'n rhan o'r cynllun 'Ysgol Iach'.
37. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ysgol yn gweithredu polisïau cadarn ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a pharchu amrywiaeth.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

38. Mae ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth yn rhagorol. Mae ganddo weledigaeth gadarn ac athroniaeth glir o ran disgwyliadau a dulliau gweithredu, ac mae'n cydweithio'n hynod effeithiol gyda'r dirprwy bennaeth a thîm brwdfrydig o athrawon wrth gynnig profiadau real ac ymarferol i'r disgyblion.
39. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ragorol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae'r disgyblion a'r staff wedi elwa'n sylweddol o'r gwahanol weithgareddau a phrosiectau.
40. Mae'r pennaeth yn cymryd rôl arweinyddiaeth mewn partneriaethau lleol effeithol ac mae un o'r athrawon yn rhannu arfer dda trwy gyfrannu mewn cyrsiau hyfforddiant mewn swydd sirol, a chreu a rhannu adnoddau iaith fel aelod o weithgor sirol.
41. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn rhagorol gan sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol. Wrth drafod blaenoriaethau cwricwlaidd, rheolaethol a chyllidol yr ysgol, maent yn gweithredu'n effeithiol fel 'cyfeillion beirniadol' gan gwestiynu, herio penderfyniadau a bwriadau, a cheisio rhagor o wybodaeth a thystiolaeth.
42. Mae trefn hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Gwneir defnydd rhagorol o'r dystiolaeth a gesglir ar gyfer adnabod blaenoriaethau yn y CDY, a chynllunio a gweithredu strategaethau sy'n debygol o arwain at welliannau.
43. Mae'r cynnydd a wnaeth yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn 2002 yn rhagorol.
44. Mae'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hunan arfarniad mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfernir gradd uwch ar gyfer cwestiwn allweddol 1 gan fod tystiolaeth yr arolygiad yn dangos nad oedd yr ysgol wedi cydnabod yn ddigonol ansawdd rhagorol safonau cyflawniad y disgyblion wrth ddod i farn.
45. Mae digon o staff addysgu a chefnogi yn yr ysgol a gwneir defnydd rhagorol o arbenigedd a diddordeb staff trwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer addysgu rhai pynciau.
46. Mae'r pwyslais a roir ar hyfforddi a chefnogi'r staff addysgu a'r staff cefnogi yn nodwedd ragorol o reolaeth yr ysgol. Yn ogystal â'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan yr awdurdod, llwyddwyd i sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth pellach trwy wneud ceisiadau am fwsari gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol. Caiff yr holl ddarpariaeth ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau dysgu ac addysgu.
47. Mae gan yr ysgol strategaeth gyllidol gadarn ac mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod yn cydweithio'n rhagorol er mwyn

sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau dynol a materol er budd y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da iawn am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 anelu at ragoriaeth mewn safonau mathemateg trwy'r ysgol; a
- A2 gryfhau ymhellach y bartneriaeth gyda'r rhieni trwy rannu gwybodaeth mwy manwl ynghylch y rhaglenni astudio.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

### Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

48. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn Gradd 2 a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Er bod canlyniadau diwedd cyfnod allweddol yr ysgol am y ddwy flynedd ddiwethaf yn is nag ysgolion tebyg, mae tystiolaeth glir fod canran uchel o ddisgyblion yn y blynyddoedd hyn yn rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae niferoedd disgyblion hefyd yn gymharol fach, ac felly nid yw'r gymhariaeth yn ddibynadwy.

49. Mae safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Safonau cyflawniad disgyblion	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	59%	41%	0%	0%	0%

50. Mae safonau'r disgyblion yn y gwersi yn rhagori ar Darged Cynradd LICC ar gyfer 2010 (98% gradd 3 neu well).

51. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd rhagorol tuag at y Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plant.

52. Mae safonau cyflawniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

<b>Meysydd dysgu</b>	<b>Plant oed meithrin</b>	<b>Plant oed derbyn</b>
laith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad mathemategol	Gradd 2	Gradd 2
Deall a gwybod am y byd	Gradd 1	Gradd 1
Datblygiad corfforol	Gradd 2	Gradd 1
Datblygiad creadigol	Gradd 1	Gradd 1

53. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, yn y pynciau a arolygwyd, mae safonau cyflawniad fel a ganlyn:

<b>Pynciau</b>	<b>Gradd Cyfnod allweddol 1</b>	<b>Gradd Cyfnod allweddol 2</b>
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 1
Daearyddiaeth	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 1	Gradd 1

54. Llwydda'r disgyblion trwy'r ysgol i gyflawni'u targedau. Gwna'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da yn addysgol ac yn gymdeithasol. Maent yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer. Mae'r holiadur rhieni yn dangos yn glir bod bron pob un ohonynt yn hapus gyda'r safonau y mae eu plant yn eu cyrraedd.
55. Gwna'r plant dan bump oed gynnydd rhagorol ym medrau allweddol gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu cynnar, rhifedd, a'r defnydd o TGCh mewn ystod eang o gyd-destunau.
56. Yng nghyfnod allweddol 1, mae safonau a chynnydd disgyblion ym medrau allweddol siarad a gwrando yn y Gymraeg yn rhagorol. Maent yn gwylio a gwrando'n astud ar ystod o symbyliadau ac yn ymateb yn rhwydd trwy siarad yn hyderus ac yn eglur gan ynganu a goslefu'n briodol. Maent yn gwneud defnydd da o'u medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg wrth drin llyfrau gwybodaeth, darllen cyfarwyddiadau ac ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau.
57. Mae safonau a chynnydd disgyblion cyfnod allweddol 2 ym medrau allweddol siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn rhagorol. Maent yn trafod eu gwaith yn rhugl ac aeddfed ac yn mynegi barn yn fedrus gan ddatblygu eu sylwadau, cynnig eglurhad, rhesymau a dadleuon. Maent yn darllen ac yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ystod eang o lyfrau gwybodaeth, geiriaduron, thesawrws, y rhyngwrwyd a dogfennau eraill wrth ymchwilio i ystod o destunau. Cofnodant eu gwaith yn drefnus a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau gan ddefnyddio geirfa ymestynnol.
58. Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn rhagorol. Mae'r plant dan bump oed sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yn dod i siarad Cymraeg yn fuan iawn ac erbyn cyfnod allweddol 1, maent yn sgwrsio'n hollol hyderus ac yn cyflawni tasgau cyfrwng Cymraeg yn gyson. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'r un rhwyddineb wrth drafod a chofnodi eu gwaith mewn nifer o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Wrth wneud

ymchwiliadau, defnyddiant ffynonellau Saesneg yn effeithiol i ganfod gwybodaeth ac yna ei gofnodi'n gywir yn Gymraeg.

59. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig. O'r blynyddoedd cynnar, maent yn gyfarwydd ag ystod eang iawn o farddoniaeth a llenyddiaeth Cymru, ac mae ganddynt wybodaeth ragorol am eu hardal leol, eu gwlad, ei henwogion a'i diwylliant.
60. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau da mewn medrau allweddol mathemategol ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn cyfrif, mesur, dosbarthu a chymharu mewn gwahanol gyd-destunau. Erbyn cyfnod allweddol 2, maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau mewn gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg trwy drin rhifau'n hyderus, gwneud gwahanol fesuriadau a chasglu a chofnodi data amrywiol.
61. Mae medrau'r disgyblion mewn TGCh yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron yn rhwydd ac yn hyderus ac erbyn cyfnod allweddol 2, gwnânt ddefnydd effeithiol o'r rhyngwrdd ac o raglenni addas i atgyfnerthu'r gwaith yn y gwahanol bynciau.
62. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol yn y 50% isaf o ysgolion. Fodd bynnag, oherwydd bod canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y carfannau hyn, a chan mai niferoedd bychan o ddisgyblion oedd yn y dosbarthiadau, nid yw'r gymhariaeth yn ddibynadwy.
63. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, dros dreigl tair blynedd, mae bron pob un o'r disgyblion nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau disgwylidig, ac mae canran uchel yng nghyfnod allweddol 2 yn cyrraedd lefelau uwch na'r norm.
64. Nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol i'w ganfod wrth gymharu perfformiad bechgyn a genethod dros y tair blynedd ddiwethaf.
65. Mae pob disgybl trwy'r ysgol yn cyrraedd ei botensial wrth ddysgu gwybodaeth newydd, datblygu medrau a chynyddu dealltwriaeth yn gyson. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r hyn maent yn ei wneud mewn gwahanol wersi a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella'u gwaith. Maent yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn aeddfed gan fynegi barn a chynnig gwelliannau. Erbyn cyfnod allweddol 2, maent yn trafod amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant yn ddeallus gan ddangos ymwybyddiaeth dda iawn o'u targedau ac o'u cynnydd wrth geisio cyrraedd y targedau hyn.
66. Mae'r safonau a'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol, a'u medrau dysgu yn rhagorol. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn defnyddio'u hamser yn effeithiol ac yn gweithio'n frwdfrydig a chynhyrchiol yn y gwersi. Gwnânt ddefnydd rhagorol o'u medrau creadigol a'u gallu i gydweithio mewn parau a grwpiau bach heb oruchwyliaeth gyson wrth ddatrys problemau.
67. Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Dangosant barch ac empathi tuag at oedolion a'u cyfoedion. Maent yn croesawu nifer fawr o ymwelwyr i'r ysgol, gan gynnwys rhai ag anableddau. Mae ganddynt

ymwybyddiaeth ragorol o faterion cyfle cyfartal a dangosant barch tuag at amrywiaeth mewn cymdeithas.

68. Roedd cyfartaledd presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad oddeutu 95%, sy'n dda. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.
69. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith a'u cyfraniad at fywyd yn y gymuned yn rhagorol. Trwy astudiaethau mewn daearyddiaeth a hanes, mae'r disgyblion ym mhob dosbarth yn datblygu gwybodaeth gadarn am wahanol swyddi a gweithleoedd yn y gymuned. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwneud â nifer o brosiectau sy'n rhoi cyfleoedd iddynt gydweithio mewn grwpiau gan ddatblygu syniadau, cynllunio, trefnu a chynnal gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau menter.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

#### **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

#### **Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

70. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
71. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
54%	46%	0%	0%	0%

72. Mae'r canrannau hyn yn rhagori ar Darged Cynradd LICC ar gyfer 2010 (80% gradd 2 neu well).
73. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:
- disgwyliadau uchel i bob disgybl eu cyflawni;
  - arbenigedd a gwybodaeth gadarn ac arloesol yr athrawon o gynnwys rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) a'r Canlyniadau Dymunol;
  - cynllunio rhagorol i'r gwersi gyda'r canlyniadau disgwyliedig, yn cynnwys y medrau y bydd disgyblion yn eu dysgu, yn cael eu cyflwyno'n glir ar ddechrau pob gwrs a'u cadarnhau ar y diwedd;
  - dulliau medrus ac effeithiol ar gyfer cwrdd ag anghenion ieithyddol disgyblion a hyrwyddo'u medrau dwyieithog;
  - anogaeth i ddisgyblion feithrin a rhannu eu syniadau eu hunain a dod i benderfyniadau wrth ddatrys problemau; a
  - datblygu annibyniaeth y disgyblion a darparu cyfleoedd amlwg iddynt werthuso'u perfformiad eu hunain ac eraill er gwelliant.
74. Mae nodweddion da yr addysgu yn cynnwys:
- rheolaeth ddosbarth effeithiol;
  - amrywiaeth yn y dulliau addysgu sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl a chyfle iddynt gyfrannu'n weithredol i'r gweithgareddau;

- pwyslais ar ddysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd gydag astudiaethau'n plethu i'w gilydd ac yn atgyfnerthu'i gilydd;
  - defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu;
  - cyflwyniadau bywiog, cyflymder priodol i'r gwersi a phrofiadau ysgogol yn cael eu darparu ar gyfer y disgyblion; a
  - perthynas dda rhwng y disgyblion a'r athrawon a defnydd effeithiol o glod a chanmoliaeth.
75. Mae ansawdd yr asesu yn rhagorol. Mae'r athrawon yn cynnal asesiadau cywir a chyson sy'n cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol, gan gynnwys y rhai ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio asesiadau yn gyson er mwyn llywio'r cynllunio ac i osod targedau pwrpasol.
76. Gweithredir dull o asesu cynnydd y disgyblion yn effeithiol. Mae llyfryn asesu, gydag enghreifftiau o waith ysgrifenedig wedi eu hasesu'n drwyadl, yn dilyn pob disgybl trwy ei yrfa yn yr ysgol. Gwneir defnydd pwrpasol ac effeithiol o brofion a thasgau asesu perthnasol. Yn y mwyafrif o bynciau, cedwir samplau o waith sy'n cynrychioli lefelau cyflawniad gwahanol. Mae'r rhain yn sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau, a dealltwriaeth o safonau ymysg athrawon.
77. Mae'r trefniadau pontio rhwng yr ysgol ag Ysgol Uwchradd Eifionydd, sy'n cynnwys asesu a safoni gwaith disgyblion, yn cryfhau asesiad athro yng nghyfnod allweddol 2 a 3.
78. Mae ansawdd marcio gwaith disgyblion yn dda. Rhan amlaf, mae'r sylwadau yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ar sut y gallant wella ansawdd eu gwaith. Pennir targedau personol i'r disgyblion sy'n eu cynorthwyo i ddeall diben asesu ac yn eu hysgogi i ymdrechu'n galetach. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u targedau ac maent yn eu trafod yn aml gyda'i gilydd a chyda'u hathrawon.
79. Mae'r adroddiadau blynyddol i'r rhieni o ansawdd da. Yn ogystal â sylwadau ar gyflawniadau a medrau'r disgyblion ym mhob pwnc, maent hefyd cynnig sylwadau ar eu datblygiad personol a chymdeithasol. Er bod rhai rhieni yn teimlo fod y defnydd a wneir o gronfa sylwadau cyfrifiadurol yn tueddu i wneud yr adroddiadau yn amhersonol, mae'r adroddiadau yn cyfarfod â'r gofynion statudol. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt ddwywaith y flwyddyn i drafod gwaith eu plant gyda'r athrawon.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

80. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
81. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd a'r modd y mae'r ysgol yn ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion yn nodweddion ragorol. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, mae wedi ei gynllunio'n drylwyr a meddylgar ac mae'n sicrhau mynediad cyfartal i bob dysgwr.

82. Rhoddir sylw rhagorol i ddatblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol y disgyblion gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer datblygu eu medrau dwyieithog. Gwneir hyn trwy gynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n plethu caffael gwybodaeth, ennill profiadau a datblygu medrau yn effeithiol. Rhoddir blaenoriaeth amlwg i feithrin annibyniaeth disgyblion, yn unol ag oedran a hyfedredd, yn gynyddol o fewn y dysgu.
83. Cynllunnir dysgu ac addysgu arloesol yn dilyn profiadau rhai o'r athrawon wrth ymweld â China a Lesotho a'r cysylltiadau sefydlwyd gyda'r gwledydd hyn. Plethir y wybodaeth uniongyrchol yma yn rhagorol o fewn sawl maes cwricwlaidd gan gynnig profiadau eang a chyfoethog i'r disgyblion.
84. Mae'r cyfleoedd a ddarperir yn rheolaidd i'r disgyblion ymweld â mannau o ddiddordeb addysgiadol a'r defnydd effeithiol a chyson a wneir o dir yr ysgol a safleoedd cyffelyb, cyfagos yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn rhagorol. Anogir artistiaid preswyl, aelodau'r corff llywodraethu, athrawon teithiol a nifer o wirfoddolwyr o'r gymuned i gyfrannu mewn dulliau penodol at ddatblygiad y disgyblion.
85. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion yn effeithiol trwy weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gemau, cadw'n heini, gweithgareddau'r Urdd a Champau'r Ddraig, ac ymweliadau preswyl.
86. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol. Mae gofynion maes addysg personol a chymdeithasol gan gynnwys sesiynau 'amser cylch' wedi eu mapio'n drylwyr ar draws yr ysgol gan roi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod, cwestiynu a dod i benderfyniad am faterion sydd o bwys iddynt.
87. Rhoddir sylw rhagorol i hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion trwy gynllunio a gweithredu cyfleoedd cyson i gyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm Cymreig, a thrwy ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod eang o ddiwylliannau eraill.
88. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried a myfyrio ar agweddau ysbrydol a phersonol.
89. Mae'r ysgol yn un agored iawn yn ei hymwneud â rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned. Mae yna berthynas gref rhwng yr ysgol a'r cartref ac mae safon ac amllder y cyfathrebu, gan gynnwys cyfarfodydd, adroddiadau, llythyrau, a thafleuni gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol, yn dda. Fodd bynnag, mae rhai rhieni yn awyddus i dderbyn gwybodaeth fwy manwl ynghylch y gwaith cartref sy'n cael ei osod a themâu'r dosbarthiadau o dymor i dymor.
90. Mae cymdeithas 'Cyfeillion Y Gorlan' yn cynnal nifer helaeth o weithgareddau ac yn codi symiau sylweddol o arian i brynu adnoddau gwerthfawr i gefnogi'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn rhan allweddol o'r gymuned. Mae'r cysylltiadau yma yn cyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddod yn aelodau cyfrifol o'u gymuned.
91. Mae partneriaeth yr ysgol gydag ysgolion eraill a cholegau addysg bellach yn rhagorol. Mae'r trefniadau ar y cyd ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i athrawon cynradd y dalgylch yn arwain at wella'r ddarpariaeth a chodi



safonau. Sefydlwyd trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo disgyblion i Ysgol Uwchradd Eifionydd ar ddiwedd Blwyddyn 6. Daw disgyblion a myfyrwyr o ysgolion, colegau a phrifysgol leol am gyfnodau buddiol o brofiad gwaith.

92. Trwy ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd perthnasol, ymweliadau â manau penodol, prosiectau megis creu a rhedeg stondin mewn ffair a rhedeg siop ffrwythau'r ysgol, hyrwyddir ymwybyddiaeth a gwybodaeth y disgyblion am fyd gwaith a datblygir eu medrau menter yn rhagorol.
93. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â hi yn ymwybodol o'i hymrwymiad i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang trwy'r cynllun Ysgolion Gwyrdd. Cyflwynodd aelodau'r cyngor ysgol nodau ac amcanion y prosiect i'r llywodraethwyr ac maent wedi arwyddo'r siarter ar y cyd. Mae ystod ac ansawdd y gweithgareddau a gynhaliwyd ar gyfer y wobr arian yn rhagorol.
94. Mae'r ysgol yn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer dysgu gydol oes trwy ddarparu amrediad o brofiadau dysgu sy'n annog disgyblion i gymryd peth cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, ac i fod yn fentrus a hyblyg.

#### **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

<b>Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol</b>
--

95. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
96. Cynigir gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd rhagorol i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned hynod drefnus, hapus a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i droi at unrhyw aelod staff am gyfarwyddyd neu gymorth.
97. Mae'r pennaeth a'r staff yn barod i gwrdd â rhieni i drafod anghenion eu plant ar unrhyw adeg. Mae'r rhieni a fynegodd farn yn y cyfarfod cyn arolygiad, ac wrth ymateb i'r holiadur, yn hapus iawn ynghylch y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant.
98. Sefydlwyd trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau bod y plant dan bump oed yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol gan gynnwys cyfleoedd iddynt dreulio cyfnod yn yr ysgol yn ystod y tymor blaenorol. Mae cysylltiadau rhagorol, yn gwricwlaidd a bugeiliol, rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd y bydd y disgyblion yn trosglwyddo iddi ar ddiwedd Blwyddyn 6. Caiff disgyblion di-Gymraeg sy'n ymuno â'r ysgol le yn yr Uned Iaith am dymor a darperir ôl ofal perthnasol wedi iddynt ddychwelyd.
99. Caiff pob disgybl gefnogaeth dda iawn gan yr athrawon, y cymorthyddion a chan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Mae'r weithdrefn 'Bydis Buarth', lle mae pob disgybl ym Mlwyddyn 6 yn gyfrifol am grŵp o ddisgyblion ieuengach, yn eu cyfarfod yn wythnosol i drafod agweddau o'u bywyd ysgol, ac yn cadw llygad arnynt yn ystod amser egwyl, yn rhagorol. Mae'r athrawon yn ymateb yn syth ac yn briodol i unrhyw bryderon sy'n cael eu datgan gan ddisgyblion trwy'r 'Blychau Sibrydion' sydd ym mhob dosbarth.

100. Mae rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol wedi'i mapio'n drylwyr ac yn cael ei chyflwyno'n effeithiol drwy sesiynau addoli ar y cyd, gwersi penodol addas, a sesiynau rheolaidd o 'amser cylch'. Teimla'r disgyblion yn hyderus i drafod teimladau a phryderon gyda'r oedolion ac mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gysylltu gyda gwasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol eraill pe bai angen.
101. Mae'r Cynghorau Dosbarth a'r cyngor ysgol, sydd yn cyfarfod yn rheolaidd, yn sicrhau llais i'r disgyblion yn natblygiad yr ysgol fel cymuned tra hefyd yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr.
102. Gosodir disgwyliadau uchel o ran ymddygiad i'r holl ddisgyblion drwy weithdrefnau 'Ysgol Dina' sy'n cynnig hyfforddiant emosiynol a chymdeithasol i'r disgyblion. Mae'r strategaethau, sy'n cael eu defnyddio gan holl staff yr ysgol, yn rhoi pwyslais ar feithrin hunan ddelwedd a balchder disgyblion, a pharch tuag at eraill a'u heiddo. Gwneir hyn trwy ganmol, dwyn sylw cyson at lwyddiannau a gwobrwyo disgyblion. Mae hyn yn nodwedd ragorol.
103. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb yn llwyddiannus. Caiff prydlondeb a phresenoldeb eu monitro'n gyson a gweithredir yn gynnar ac yn addas, yn ôl y gofyn.
104. Mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles disgyblion yn rhagorol. Wrth gwblhau y tri cham o'r cynllun 'Ysgol Iach' yn llwyddiannus, gweithredwyd yn effeithiol ar nifer o brosiectau sy'n rhoi sylw i fwyta'n iach a hybu ffitrwydd. Mae rhain yn cynnwys clwb Dal i Fynd sy'n annog disgyblion i gerdded neu redeg pellter penodol yn rheolaidd, a siop ffrwythau sy'n cael ei threfnu a'i rhedeg gan y disgyblion.
105. Y pennaeth yw'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, ac mae cyfrifoldeb gan aelod o'r corff llywodraethu yn ogystal. Mae'r staff cyfan yn gyfarwydd â chanllawiau manwl yr ysgol yn y maes ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r modd i ymateb pe codai achos.
106. Archwilir yr adeilad a thir yr ysgol yn rheolaidd gan aelodau'r corff llywodraethu a gwneir asesiadau risg manwl i iechyd a diogelwch wrth baratoi ar gyfer ymweliadau addysgol a gwaith maes.
107. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
108. Mae gan yr aelod o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb am anghenion dysgu ychwanegol ymwybyddiaeth dda o'i swyddogaeth ac o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae'n trafod y gynhaliaeth yn rheolaidd gyda'r cydlynnydd.
109. Trwy ddilyn gweithdrefnau asesu manwl a thrylwyr, mae'r athrawon yn adnabod anawsterau disgyblion yn fuan. Rhoddir ystyriaeth briodol i amrywiaeth cefndiroedd disgyblion a gweithredir yn syth ac yn effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth a chyfarwyddyd penodol addas iddynt. Sicrheir cydweithrediad agos y rhieni wrth adnabod yr angen a chynllunio i'w diwallu, ac wrth geisio'u cefnogaeth gyda'r ddarpariaeth yn y cartref.
110. Mae'r athrawon yn paratoi cynlluniau addysgol unigol addas ar gyfer y disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau a strategaethau manwl ac yn cyfateb yn dda iawn i anghenion disgyblion unigol. Adolygir cynnydd y

disgyblion gyda'r rhieni yn dymhorol a phennir targedau newydd ddwy waith y flwyddyn.

111. Cynigir cefnogaeth ychwanegol o ansawdd da i'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan athrawes gynhaliol a chymhorthydd. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol, y pennaeth, yr athrawon dosbarth, yr athrawes gynhaliol a'r cymorthyddion yn cyd drafod a chydweithio'n effeithiol er budd y disgyblion. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn derbyn mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys hyd y bo modd.
112. Mae gan yr ysgol bolisiâu manwl a chanllawiau pendant ar gyfer ymateb i achosion o gamymddwyn, ac maent yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae'r drefn 'Ysgol Dina' ac egwyddorion y cynllun sy'n weithredol trwy'r ysgol, yn cynnig cefnogaeth ragorol i sicrhau nad yw ymddygiad annerbyniol disgyblion yn amharu ar eu cynnydd hwy nac ar gynnydd disgyblion eraill.
113. Mae'r ysgol yn gweithredu polisiâu cadarn ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a pharchu amrywiaeth. Trwy wersi penodol sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd gyda swyddogion Gyrfa Cymru, mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ragorol ar gyfer codi ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb rhyw a herio stereoteipio.
114. Trwy'r cysylltiadau agos ag ysgolion mewn gwledydd tramor, mae'r ysgol yn llwyddo'n rhagorol i hyrwyddo parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol.
115. Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Anabledd a chynllun gweithredu addas. Er nad yw'r ysgol wedi ei phenodi gan y sir fel un ar gyfer derbyn disgyblion ag anableddau corfforol, mae'n barod i wneud pob ymdrech i gynllunio a gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n dymuno cael mynediad i'r ysgol gan sicrhau na fyddai disgyblion ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw un arall.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?**

### Gradd1: Da gyda nodweddion rhagorol

116. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
117. Mae ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth yn rhagorol. Mae ganddo weledigaeth gadarn ac athroniaeth glir o ran disgwyliadau a dulliau gweithredu, ac mae'n llwyddo i greu ymdeimlad o bwrpas sy'n hyrwyddo safonau uchel ac yn cynnal gwelliannau'n barhaus. Mae'n cydweithio'n hynod effeithiol gyda'r dirprwy bennaeth a thîm brwdfrydig o athrawon wrth gynnig profiadau real ac ymarferol i'r disgyblion.
118. Mae gan yr ysgol nodau, gwerthoedd a pholisiâu cadarn sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac sy'n cael eu hadlewyrchu'n glir ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae gan bob aelod staff a'r llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda iawn o'r holl weithdrefnau ac maent yn gweithio'n gydwobodol fel tîm er mwyn sicrhau llwyddiant a datblygiad yr ysgol.

119. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ragorol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae'r disgyblion a'r staff wedi elwa'n sylweddol o'r gweithgareddau sy'n ymwneud â bod yn rhan o'r gwahanol brosiectau. Cafodd yr ysgol ymweliad gan swyddog o LICC i weld arfer dda o ran cynnal y cynllun addysg gorfforol PESS a fu'n llwyddiant mawr yn yr ysgol. Cwblhawyd tri cham y cynllun 'Ysgol Iach' yn llwyddiannus ac enillodd yr ysgol wobwr canmoliaeth i Ysgolion Iach gan yr Ymddiriedolaeth Gwobrau Addysgu yn 2006. Bu'r ysgol yn rhan o'r cynllun 'Darllen Mil o Eiriau' sy'n cael ei noddi gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, enillodd achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro, ac mae'n paratoi ar gyfer Gwobr Aur y cynllun 'Ysgol Werdd'.
120. Rhoddir sylw rhagorol i hybu ffitrwydd disgyblion a bu'r ysgol yn arloesol yn y maes trwy sefydlu cynllun rhedeg 'Dal i Fynd' sydd bellach wedi ei fabwysiadu gan lawer o ysgolion eraill yn y sir ac wedi ei gydnabod yn genedlaethol fel enghraifft o arfer dda.
121. Mae'r ysgol yn cymryd rhan weithgar mewn nifer o bartneriaethau, gan gynnwys rhai gyda'r Awdurdod Addysg Lleol ac ysgolion y dalgyloch. Fel cydlynnydd hyfforddiant mewn swydd y dalgyloch, mae'r pennaeth yn arwain cyfarfodydd penaethiaid yn rheolaidd, yn trafod blaenoriaethau a threfnu hyfforddiant staff a gweithgareddau rhyng-ysgolion eraill. Yn ogystal, mae'n gweithredu'n effeithiol fel mentor i benaethiaid newydd yn y sir.
122. Mae aelod o staff addysgu'r ysgol yn rhannu arfer dda mewn addysg gorfforol trwy gyfrannu mewn cyrsiau hyfforddiant mewn swydd sirol, ac yn creu a rhannu adnoddau iaith fel aelod o weithgor sirol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau yn yr ysgol.
123. Mae gan y staff a'r llywodraethwyr ddisgwyliadau uchel o ran ethos, ymddygiad a safonau. Sicrheir bod pob disgybl yn cyrraedd ei botensial drwy osod targedau heriol ond realistig ar gyfer safonau presenoldeb, safonau cyrhaeddiad disgyblion yn y pynciau craidd, a safonau cyflawniad mewn medrau dwyieithog. Mae'r drefn hon yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.
124. Sefydlwyd trefniadau addas er mwyn sicrhau amser digyswllt i'r athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a threfn effeithiol ar gyfer rheoli a gwella perfformiad staff. Mae tystiolaeth bendant fod y gweithdrefnau hyn yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r ysgol, ac yn gwella ansawdd yr addysgu a chodi safonau.
125. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn rhagorol gan sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am holl weithdrefnau'r ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at y cynllunio strategol.
126. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth a'r cydlynwyr cwricwlaidd a maes, sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr iddynt ar bob agwedd ar waith yr ysgol. Maent yn archwilio'r adeiladau, tiroedd yr ysgol a'r adnoddau yn rheolaidd gan gynnal asesiadau risg manwl a gweithredu'n brydlon ar y canfyddiadau.
127. Mae'r llywodraethwyr yn trafod blaenoriaethau cwricwlaidd, rheolaethol a chyllidol yr ysgol yn gyson. Wrth drafod hunan arfarniad yr ysgol ac wrth gynhyrchu a monitro'r CDY, maent yn cyfrannu'n effeithiol fel 'cyfeillion beirniadol' gan gwestiynu, herio penderfyniadau a bwriadau, a cheisio rhagor o

wybodaeth a thystiolaeth. Maent yn cymryd rhan weithredol yn y broses o godi safonau trwy arsylwi gwersi yn rheolaidd ac adrodd yn ôl i weddill y llywodraethwyr.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

128. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
129. Sefydlwyd gweithdrefnau trylwyr ac effeithiol ar gyfer monitro ac arfarnu safonau a darpariaeth yr ysgol ers nifer o flynyddoedd. O'r cychwyn, bu'r ysgol yn flaengar yn y maes ac fe'i defnyddiwyd fel enghraifft o arfer ragorol ar fideo gafodd ei gynhyrchu i gynnig arweiniad a chanllawiau i ysgolion cynradd yr awdurdod.
130. Mae gan y pennaeth a'r cydlynwyr cwricwlwm eraill wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac maent wedi ymrwmo i godi safonau.
131. Mae trefn hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Cydweithia'r staff yn agos wrth archwilio gwaith disgyblion, dadansoddi data asesiadau athrawon, cyflwyno a thrafod syniadau newydd, a threfnu ymweliadau gan ymgynghorwyr a swyddogion addysg. Mae'r athrawon yn arsylwi gwersi ei gilydd yn rheolaidd er mwyn arfarnu'r dysgu a'r addysgu a rhannu arferion da.
132. Yn dilyn yr arfarniadau, llunnir adroddiadau monitro trylwyr a threiddgar sy'n nodi'n glir pa agweddau sydd angen sylw pellach. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff ac yn cael eu cyflwyno i'r llywodraethwyr gan bob cydlynudd yn ei dro.
133. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i drafod, mynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau ynghylch agweddau o ddarpariaeth yr ysgol trwy'r Cynghorau Dosbarth a'r cyngor ysgol. Er y darperir cyfleoedd priodol i rieni fynegi barn am agweddau ar waith yr ysgol trwy nosweithiau rhieni a thrwy'r polisi 'drws agored' sy'n bodoli, nid oes ymgais benodol wedi ei wneud, trwy gyfrwng holiaduron, i geisio barn rhieni am faterion ynglŷn ag agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol.
134. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol o'r wybodaeth a gesglir trwy'r trefniadau hunan arfarnu ar gyfer adnabod blaenoriaethau yn y CDY. Mae'n ddogfen gryno ond effeithiol, sy'n arenwi prif flaenoriaethau'r ysgol yn glir ac yn cynllunio strategaethau cadarn sy'n debygol o arwain at welliannau. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r modd y defnyddir adnoddau ariannol yr ysgol i gefnogi'r blaenoriaethau. Mae tystiolaeth bendant bod y camau gweithredu er mwyn gwella yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ar y ddarpariaeth yn yr ysgol.
135. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol ar gyfer yr arolygiad yn glir ac yn gynhwysfawr ac yn cynnig barnau gwrthrychol a gonest ar y saith cwestiwn allweddol. Mae'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hunan arfarniad mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfernir gradd

uwch ar gyfer cwestiwn allweddol 1 gan fod tystiolaeth yr arolygiad yn dangos nad oedd yr ysgol wedi cydnabod yn ddigonol ansawdd rhagorol safonau cyflawniad y disgyblion wrth ddod i farn.

136. Rhoddwyd sylw manwl i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2002 a llwyddwyd i gyflawni pob amcan.

### **Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

#### **Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

137. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
138. Mae digon o staff addysgu a chefnogi ar gyfer anghenion yr ysgol. Mae'r athrawon i gyd yn brofiadol iawn yn eu swydd ac mae ganddynt ystod eang o gymwysterau ac arbenigeddau. Gwneir defnydd rhagorol o arbenigedd a diddordeb staff trwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer addysgu cerddoriaeth, addysg gorfforol, hanes ac addysg grefyddol.
139. Gwneir defnydd effeithiol o amser ac arbenigedd athrawes ran amser i addysgu cerddoriaeth yng nghyfnod allweddol 1, ac agweddau amrywiol o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2, yn ystod amser digyswllt yr athrawon.
140. Mae'r weinyddes feithrin a'r cymhorthydd dosbarth yn gwneud eu gwaith yn dda a chydwybodol tra hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol yn gyffredinol. Gwneir defnydd priodol o amser myfyrwraig, sydd ar gyfnod o brofiad gwaith yn yr ysgol, i gynnig cynhaliaeth ychwanegol i'r plant dan bump oed. Mae'r staff ategol eraill yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn effeithlon.
141. Mae'r pwyslais a roir ar hyfforddi a chefnogi'r staff addysgu a'r staff cefnogi yn nodwedd ragorol o reolaeth yr ysgol. Mae'r staff cyfan yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd i rannu arferion da ymysg ei gilydd a'r gefnogaeth gyson sydd ar gael gan y pennaeth. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei chynllunio'n fanwl i gyd-fynd ag anghenion datblygiad proffesiynol unigolion ac â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad.
142. Llwyddwyd i sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei gynnig gan yr awdurdod trwy wneud ceisiadau am fwrsari gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol a gwneud defnydd effeithiol o'r grant. Caiff yr holl ddarpariaeth ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau dysgu ac addysgu.
143. Mae cyflenwad rhagorol o adnoddau yn yr ysgol ar gyfer pob oedran ac ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Maent o ansawdd da, yn hygyrch i'r disgyblion a'r athrawon, ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r Gymdeithas Rhieni yn codi symiau sylweddol o arian bob blwyddyn ac mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at nifer ac ansawdd yr adnoddau.
144. Trwy waith cynnal a chadw cyson, cedwir prif adeilad yr ysgol mewn cyflwr da. Mae'r ystafelloedd dysgu yn eang a braf, yn enwedig yn adran y plant dan bump oed a chyfnod allweddol 1, ac mae safon glanweithdra yn uchel. Mae'r

arddangosfeydd diddorol a chwaethus o waith disgyblion yn creu amgylchedd symbylol.

145. Cedwir tir yr ysgol yn daclus a deniadol. Mae yna ddwy iard chwarae wedi eu marcio ar gyfer gemau, parc antur a adeiladwyd gyda chymorth grantiau a chyfraniad gan y Gymdeithas Rhieni, ac ardal ddiogel a phwrpasol i'r plant dan bump oed chwarae yn yr awyr agored. Er bod y cae chwarae'n wlyb am ran helaeth o'r flwyddyn, gwneir defnydd llawn ohono yn ystod misoedd yr haf. Llwyddwyd i ymestyn maes parcio'r ysgol yn ddiweddar er mwyn hwyluso trefniadau parcio a diogelu disgyblion.
146. Mae gan yr ysgol strategaeth gyllidol gadarn ac mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod yn cydweithio'n rhagorol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau dynol a materol er budd y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da iawn am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Plant o dan 5 oed

147. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

### Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

**Plant oed meithrin: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

**Plant oed derbyn: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

148. Mae'r plant meithrin a derbyn yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion ac ar gyfraniadau'i gilydd ac yn ymateb yn syth ac yn briodol i gyfarwyddiadau. Maent yn canolbwyntio a thalu sylw'n ofalus wrth edrych a gwrando ar amrywiaeth o symbyliadau.
149. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus a chllir mewn iaith estynedig. Wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, maent yn cynnig sylwadau eu hunain, yn trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud yn ofalus ac yn defnyddio geirfa sy'n berthnasol i'r dasg. Maent yn adrodd toreth o rigymau a cherddi syml oddi ar y cof gan ddefnyddio goslef briodol i gyfleu ystyr.

### Nodweddion da

150. Mae'r plant meithrin yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau edrych ar luniau a thestun gydag oedolyn, a gwrando ar storïau. Maent yn adnabod ac yn gallu gwahaniaethu rhwng y rhan fwyaf o lythrennau'r wyddor ac yn enwi llythyren gyntaf geiriau cyfarwydd. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol trwy wneud marciau a ffurfio llythrennau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ac mewn ystod eang o wahanol gyd-destunau.

151. Mae'r plant derbyn yn adnabod llawer o eiriau ac ymadroddion mewn cyd-destunau cyfarwydd ac yn darllen eu gwaith eu hunain a thestunau eraill syml yn gywir. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ar bapur gan ddefnyddio symbolau a lluniau ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau byr sydd wedi'u cysylltu â phatrwm cyfarwydd.

### **Datblygiad personol a chymdeithasol**

**Plant oed meithrin: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

**Plant oed derbyn: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

### **Nodweddion rhagorol**

152. Mae'r plant meithrin a derbyn yn mynegi a chyfleu eu teimladau ac emosiynau yn rhwydd ac yn aeddfed. Maent yn deall beth sy'n gwneud ffrind da ac yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o'r angen i fod yn ofalgar ac yn ystyriol o deimladau ac anghenion pobl eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o ddisgwyliadau'r dosbarth a'r ysgol o ran ymddygiad.
153. Mae'r plant derbyn yn trafod gyda manylder a dangos parch tuag at arferion, diwylliant ac anghenion pobl mewn rhannau o Affrica a Tsieina. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'w cymuned eu hunain gan arddangos dealltwriaeth a balchder o'u Cymreictod. Mae'r plant meithrin sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn dod i ddeall ac i ddechrau siarad yr iaith yn fuan. Erbyn y flwyddyn derbyn, mae'r plant yn sgwrsio'n rhwydd a hyderus yn y Gymraeg.

### **Nodweddion da**

154. Mewn gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored, mae'r plant meithrin a derbyn yn cyd chwarae'n hapus gan helpu'i gilydd a rhannu offer, adnoddau a theganau. Maent yn dyfalbarhau gyda thasgau newydd ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

### **Datblygiad mathemategol**

**Plant oed meithrin: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Plant oed derbyn: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Nodweddion da**

155. Trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau llafar, ymarferol a chwarae, mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o waith rhif.
156. Mae'r plant meithrin yn adnabod a defnyddio enwau rhifau'n gywir gan gysylltu'r symbol a'r sain a chyfrif gwrthrychau hyd at 5 yn rhwydd. Mae'r plant derbyn yn adnabod a chyfrifo bondiau rhif hyd at 10 ac yn trefnu rhifau hyd at o leiaf 20. Wrth chwarae siop, mae'r plant derbyn yn adnabod pob darn arian hyd at £1 ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o werth pob darn. Maent yn cyfrifo cyfansymiau bach a rhoi newid gan ddefnyddio ceiniogau.
157. Mae'r plant yn trafod a datrys problemau mathemategol syml sy'n codi o sefyllfaoedd ymarferol yn rhwydd. Mae'r plant meithrin yn defnyddio clorian yn fedrus ar gyfer cymharu a threfnu llysiâu a ffrwythau yn ôl eu pwysau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o eirfa fathemategol megis hir a byr, mawr, bach a chanolig, mwyaf a lleiaf, trwm ac ysgafn ac yn eu defnyddio'n gywir wrth drafod eu gwaith. Mae'r plant derbyn yn didoli, dosbarthu, trefnu a chymharu



gwrthrychau mewn nifer fawr o gyd-destunau gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir wrth ddisgrifio'u gwaith.

158. Mae'r plant meithrin yn adnabod ac enwi siapiau dau ddimensiwn syml ac erbyn y dosbarth derbyn, maent yn enwi a disgrifio siapiau tri dimensiwn yn hyderus.

### **Diffygion**

159. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

**Plant oed meithrin: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

**Plant oed derbyn: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

### **Nodweddion rhagorol**

160. Trwy archwilio, ymholi, arbrofi a gofyn cwestiynau mewn amrywiaeth o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored, mae'r plant meithrin a derbyn yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r byd.
161. Mae gan y plant meithrin a derbyn wybodaeth ragorol am eu hardal leol. Mae'r plant meithrin yn trafod ble maent yn byw a sut maent yn teithio i'r ysgol. Erbyn y dosbarth derbyn, maent yn gwybod cyfeiriad eu cartref ac yn llunio map syml o'u taith i'r ysgol. Maent yn gyfarwydd â phentrefannau yn yr ardal ac yn adnabod mynyddoedd lleol wrth eu henwau. Gallant enwi a disgrifio rhai nodweddion naturiol a nodweddion a grëwyd gan ddyn ar eu mapiau.
162. Mae'r plant yn gwybod fod pentref Tremadog yng Nghymru a gallant adnabod Cymru a gwledydd eraill ar fap o'r byd. Maent yn disgrifio'n fanwl rai gwahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o'r arferion byw, y bywyd gwyllt a'r hinsawdd yn Tsieina ac mewn gwlad yng nghyfandir Affrica.

### **Nodweddion da**

163. Mae'r plant hynaf yn disgrifio gyda manylder rai o'r gwahaniaethau rhwng eu bywyd nhw a'r ffordd o fyw yn chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf. Wrth drafod, maent yn cyfeirio'n aeddfed at ystod o ffynonellau hanesyddol gan gynnwys arteffactau, sgwrs gan oedolyn yn dwyn ei gorffennol i gof, lluniau a llyfrau.
164. Maent yn defnyddio cyfrifiadur gyda hyder cynyddol, gan reoli'r 'llygoden' yn dda wrth chwarae gemau sy'n atgyfnerthu eu medrau iaith a mathemateg.
165. Mae'r plant yn plannu hadau yn y dosbarth, yn cymharu'r gwahanol fathau o blanhigion ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o sut i ofalu amdanynt wrth iddynt dyfu. Maent yn gwybod enwau prif rannau blodyn ac yn gwybod yn fras beth yw eu swyddogaeth.

### **Datblygiad corfforol**

**Plant oed meithrin: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Plant oed derbyn: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

#### **Nodweddion rhagorol**

166. Mae gan y plant derbyn ymwybyddiaeth dda iawn o'r angen i gynhesu'r corff cyn ymarfer a'r angen i ymlacio ar y diwedd. Maent yn adnabod ac yn disgrifio'n aeddfed yr effeithiau a gaiff ymarfer ar eu cyrff gan gyfeirio at eu hanadl a churiad eu calon yn cyflymu a sut maent yn ymddangos.
167. Maent yn gweithio'n ddiogel ac yn gorfforol galed mewn sesiynau symud gan wahaniaethu'n glir ac yn bendant rhwng rhedeg, cerdded, sgipio, neidio a hercian. Maent yn cyflawni perfformiadau cywrain a medrus wrth gysylltu symudiadau gan arddangos rheolaeth ragorol ar y defnydd o le gwag, gwahanol lefelau, siapiau a chyfeiriadau teithio.

#### **Nodweddion da**

168. Mae'r plant meithrin a derbyn yn trin cyfarpar bach megis pensiliau, brwshys paent, creonau a siswrn yn gywir ac yn eu defnyddio gyda rheolaeth gynyddol. Mae'r plant meithrin yn arddangos cydweithrediad llaw a llygad da wrth ddefnyddio gefail fach i godi gwrthrychau o dwb dŵr.
169. Trwy chwarae'n gyson gydag offer mawr, mae'r plant meithrin yn datblygu hyder wrth ddringo a rheolaeth dda wrth ddefnyddio beiciau a cheir bach. Maent yn symud yn hyderus i gerddoriaeth gan ymateb yn dda i gyfarwyddiadau.

### **Datblygiad creadigol**

**Plant oed meithrin: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

**Plant oed derbyn: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol**

#### **Nodweddion rhagorol**

170. Mae'r plant meithrin a derbyn yn gyfarwydd ag ystod eang iawn o gerddoriaeth o Gymru ac o wledydd eraill. Maent yn cyfeirio'n naturiol a rhwydd at gyfansoddwyr megis Schumann a Mozart gan enwi darnau a gyfansoddwyd ganddynt. Maent yn gwrando'n ofalus ar gerddoriaeth 'Carnifal yr Anifeiliaid' gan Saint-Saens ac yn adnabod ac enwi'r anifeiliaid sy'n cael eu cynrychioli yn y darn. Defnyddiant eu dychymyg a'u creadigrwydd yn hynod effeithiol wrth greu symudiadau i gyfleu gwahanol rannau.
171. Wrth edrych yn ofalus ar waith nifer o arlunwyr enwog o Gymru ac o rannau eraill y byd, mae'r plant derbyn yn datblygu dealltwriaeth ragorol o liwiau, llinellau, patrwm a siâp ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol wrth arbrofi gyda phaentiadau eu hunain.

#### **Nodweddion da**

172. Mae'r plant i gyd yn gwybod ystod eang o ganeuon a hwiangerddi ar y cof ac yn eu canu'n swynol a brwdfrydig. Maent yn archwilio ac arbrofi gyda gwahanol offerynnau cerdd ac yn datblygu ymwybyddiaeth a chywirdeb rhythm wrth greu cerddoriaeth.

173. Maent yn ymdrin ag ystod eang o wahanol gyfryngau yn rheolaidd wrth argraffu, peintio a modelu.

## Mathemateg

### **Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

174. Yng nghyfnod allweddol 1, mae mwyafrif y disgyblion yn adio a thynnu rhifau sy'n gwneud cyfanswm o 10 yn dda mewn sesiynau mathemateg pen. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn datblygu hyn ymhellach gan gyfrifo symiau adio a thynnu sydd â rhif 9 ynddynt yn dda.
175. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau papur a phensil wrth ddatrys symiau bondiau rhif sy'n gwneud 10. Gwna'r disgyblion mwyafrif galluog gyfrifiadau ymestynnol gan ddarganfod bondiau rhif o fewn symiau mwy cymhleth.
176. Mae'r disgyblion yn adnabod ac yn disgrifio nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn syml yn hyderus.
177. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion ieuengaf yn casglu data yn effeithiol gan ei gofnodi mewn tabl yn drefnus cyn mynd ati i greu graffiau manwl a chywir. Maent yn adnabod patrymau syml o'r data ac yn eu dadansoddi a'u trafod yn dda.
178. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymchwilio a datrys problemau yn hyderus a synhwyrol. Trafodant eu gwaith mewn grwpiau ac mewn parau gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir.
179. Wrth ymdrin â gwaith siâp a mesurau, mae'r disgyblion yn amcangyfrif ac yn cyfrifo arwynebedd gwrthrychau yn fedrus. Wrth ddatrys problemau sy'n ymwneud â chyfaint, maent yn trosi'n rhwydd o un uned i'r llall. Gan amlaf, maent yn dewis yr uned gywir ar gyfer cofnodi màs a phellter.
180. Ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae gan y mwyafrif o'r disgyblion afael da ar waith rhif. Defnyddiant amrediad o ddulliau cyfrifo papur a phensil er mwyn datrys symiau rhif a gall nifer fechan gywiro eu hunain pan welant gamgymeriad yn eu gwaith.
181. Mae'r disgyblion yn cyfrifo ffracsiynau cywerth yn hyderus gan arddangos dealltwriaeth gadarn o waith ffracsiynau syml.

#### **Diffygion**

182. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw llawer o'r disgyblion yn cwblhau cyfrifiadau yn y pen yn ddigon chwim a hyderus.
183. Mae lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ansicr o'r cysylltiad rhwng canrannau, ffracsiynau a degolion.

## Dylunio a thechnoleg

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

#### Nodweddion rhagorol

184. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth ragorol o bwysigrwydd ymchwilio fel rhan o'r broses ddylunio. Maent yn edrych ar ystod eang o wrthrychau a chynhyrchion ac yn ystyried nifer o bosibiliadau gwahanol cyn mynd ati i wneud y cynnyrch. Wrth ddylunio pont fydd yn ddigon cryf i bwrpas penodol, maent yn trafod yn aeddfed ac yn cyfathrebu eu syniadau yn wybodus, gan arddangos dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol a gwyddonol megis mesuriadau a nodweddion grymoedd.
185. Mae'r disgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn gwerthuso cynhyrchion yn rhagorol. Wrth greu crochenwaith, maent yn holi defnyddwyr am eu barn dan nifer o benawdau synhwyrol. Defnyddiant yr wybodaeth a'r data a gasglwyd yn effeithiol wrth gynnig sylwadau am eu gwaith ac ystyried addasiadau.
186. Gwna disgyblion Blwyddyn 6 ddefnydd rhagorol o adnoddau TGCh ar gyfer creu gweithdrefnau i reoli cyfrannau trydanol mewn goleudy.

#### Nodweddion da

187. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud defnydd eang o ddeunyddiau megis pren, cardfwrdd, papur, plastig, tecstilau a bwyd. Maent yn defnyddio gwahanol ddulliau i uno defnyddiau ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i gryfhau cynhyrchion.
188. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymchwilio i ddeunyddiau yn dda gan ystyried nodweddion gwahanol yn y broses dylunio.
189. Maent yn creu pypedau bys neu law, a chyn y broses 'gwneud' maent yn ymchwilio'n fanwl er mwyn dysgu am wahanol fathau o bypedau. Wrth ddylunio, maent yn rhestru nodweddion fel rhannau, deunyddiau a'r offer y byddant eu hangen ac mae'r mwyafrif yn ystyried y prif gamau gwneud wrth ddylunio yn dda.
190. Wrth gynllunio gardd fechan, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn defnyddio eu dychymyg yn dda ac yn ystyried yn ofalus pa ddeunyddiau sydd eu hangen, gan weithio ar adegau yn llwyr annibynnol.
191. Wrth ddylunio pecyn i ddal hadau planhigion, maent yn dechrau deall pwysigrwydd ystyried addasrwydd y cynnyrch i bwrpas. Maent yn ymchwilio yn fanwl i blygiadau papur ac yn ystyried gorffeniad y cynnyrch yn ofalus.

#### Diffygion

192. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ystyried yn ddigonol yr angen i fesur fel nodwedd bwysig o'r gwaith cofnodi a dylunio.

## Daearyddiaeth

### Cyfnod allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

### Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

#### Nodweddion rhagorol

193. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'u hardal leol.
194. Yn dilyn gwaith maes o amgylch y pentref, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn disgrifio'r daith gan wahaniaethu'n synhwyrol rhwng nodweddion dynol a nodweddion ffisegol yr ardal. Maent yn gwybod beth yw eu cyfeiriad ac yn gallu disgrifio lleoliad eu cartref gyda manylder gan ddefnyddio termau daearyddol megis agos, pell, chwith a de, afon, ffordd a thŷ yn rhwydd. Defnyddiant symbolau a dyluniadau yn fedrus wrth lunio map syml yn dangos eu taith i'r ysgol.
195. Fel rhan o waith maes yn nhref Porthmadog, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn defnyddio map ordnans, lluniau a ffotograffau yn hyderus. Maent yn arsylwi'n ofalus ar wahanol adeiladau yn y dref ac yn disgrifio pa ddefnydd a wneir ohonynt. Maent yn disgrifio'r gwahaniaeth rhwng tref a phentref ac yn mynegi barn syml ynghylch rhinweddau byw yn y naill neu'r llall.
196. Mae disgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 2 yn ymwneud ag ymchwiliadau daearyddol cynhwysfawr wrth ddilyn taith afon Glaslyn. Wrth ymweld â gwahanol ardaloedd ar y daith, maent yn gwneud mesuriadau manwl, yn amcangyfrif a chyfrifo pellteroedd ac yn casglu a chofnodi gwybodaeth yn drefnus am nodweddion yr ardal. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol wrth lunio mapiau o'r daith ac yn defnyddio ystod eang o eirfa daearyddol yn rhwydd a naturiol wrth drafod a gofyn cwestiynau. Maent yn archwilio, arsylwi a disgrifio'n aeddfed effaith pobl ar yr amgylchedd.
197. Mae gan ddisgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 wybodaeth ragorol am brifddinasoedd yn y Deyrnas Unedig ac mewn rhannau eraill o Ewrop. Maent yn lleoli'r prifddinasoedd ar atlas gan ddefnyddio lledred a hydred ac yn defnyddio medrau ymchwilio daearyddol yn effeithiol wrth drefnu taith ddychmygol yno. Gwnânt defnydd da iawn o lyfrau, mapiau, ffotograffau o'r awyr, a'r rhyngwrth wrth wneud eu ymchwiliadau a'u hastudiaethau.
198. Trwy'r partneriaethau effeithiol sydd wedi eu sefydlu rhwng yr ysgol ag ysgolion yn Tsieina ac yn Lesotho, mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wybodaeth a dealltwriaeth ragorol am fywyd dydd i ddydd ac am brif nodweddion y gwledydd hyn. Maent yn disgrifio tirwedd Lesotho a deall y nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol rhwng addysg a bywyd dydd i ddydd yn Lesotho ac yng Nghymru.

#### Nodweddion da

199. Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio termau daearyddol yn fedrus a naturiol wrth drafod eu gwaith.
200. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gallu lleoli Tremadog, Beddgelert, Caernarfon ac Ynys Môn yn rhwydd ar fap o Ogledd Cymru.

201. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn llunio cwestiynau a chyflwyno dadleuon deallus o blaid ac yn erbyn yr ysbyty newydd sydd yn cael ei hadeiladu yn y pentref.
202. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio cyfeirnodau grid pedwar a chwe ffigwr yn hyderus i ddarganfod lleoliad ar fap. Mae ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r cysyniad o ddefnyddio graddfeydd ac o allwedd a symbolau wrth lunio map. Maent yn defnyddio wyth pwynt y cwmpawd yn hyderus wrth ddisgrifio cyfeiriad llefydd.
203. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn arsylwi'n fanwl ar awyrlun o Gaerdydd, yn gofyn cwestiynau, mynegi barn a chynnig syniadau gan ddisgrifio gwahanol nodweddion yn ddeallus.

## Cerddoriaeth

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

204. Mae disgyblion trwy'r ysgol yn ymwneud a gweithgareddau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth sydd yn cydblethu'n effeithiol gan atgyfnerthu'r dysgu.
205. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn canu amrywiaeth eang iawn o ganeuon addas gan gadw mewn tiwn a rhoi sylw arbennig i ofynion ynganiad, brawddeg, dymameg ac osgo er mwyn cyfleu ystyr.
206. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu perfformiad trawiadol gyda repertoire eang o ganeuon unsain a rhan-ganeuon sy'n fwyfwy ymestynnol. Maent yn perfformio'n hynod hyderus gan ddangos rheolaeth gadarn ar anadlu, ystum, amseriad a rhythm.
207. Gwna disgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnydd rhagorol o raglen gyfrifiadurol i gyfansoddi cerddoriaeth mewn ymateb i lun fel symbyliad. Maent yn trafod, gwerthuso, addasu a gwella eu cyfansoddiadau wrth fynd ymlaen ac yn llwyddo'n dda i greu naws ac awyrgylch yn y cyfansoddiadau.
208. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn gwrando'n astud ar eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth gan eraill o nifer o wahanol gyfnodau, arddulliau a diwylliannau. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn adnabod ystod eang o ddarnau o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr a cherddorion enwog, ac yn enwi rhai offerynnau wrth eu clywed. Maent yn disgrifio'r darnau'n ddeallus gan ddefnyddio termau cerddorol addas.
209. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall ac yn egluro'r gwahaniaeth rhwng cerddoriaeth glasurol, gwerin a phoblogaidd. Maent yn gwerthuso darnau'n ddeallus gan adnabod a disgrifio'r prif nodweddion, mynegi barn a chynnig rhesymau synhwyrol dros y dewis o rai elfennau cerddorol. Defnyddiant eirfa gerddorol ymestynnol yn rhwydd a naturiol wrth drafod eu gwaith.

### **Nodweddion da**

210. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn creu cyfansoddiadau diddorol mewn ymateb i symbyliadau. Maent yn dewis offerynnau addas i'r dasg ac yn cofnodi'u gwaith yn drefnus ar sgôr graffeg.

### **Addysg gorfforol**

#### **Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol** **Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

#### **Nodweddion rhagorol**

211. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn symud yn bwrpasol gan roi sylw manwl i ansawdd a chywirdeb. Maent yn defnyddio ystod o symudiadau yn hyderus gan ddangos rheolaeth gadarn wrth neidio, osgoi a newid cyfeiriad.
212. Mae eu safonau a'u cynnydd wrth drin a thrafod pêl mewn ymarferion datblygu sgiliau pêl rwyd yn rhagorol. Maent yn canolbwyntio yn dda iawn ac yn newid cyfeiriad a chyflymdra yn fedrus wrth basio a derbyn pêl yn fanwl gywir. Maent yn symud o le i le gan wneud defnydd effeithiol o sgiliau pêl sy'n gynyddol heriol.
213. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn perfformio symudiadau a siapiau gymnasteg yn rhagorol. Maent yn creu cyfres o weithgareddau gymnasteg yn effeithiol gan arddangos meistrolaeth amlwg wrth newid siâp, cyflymder, lefel a chyfeiriad yn fanwl a chywir.
214. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd rhagorol o sgiliau anfon, derbyn a theithio gyda phêl. Maent yn dysgu sgiliau newydd yn sydyn ac yn eu defnyddio'n effeithiol wrth ymarfer. Maent yn ymosod ac amddiffyn yn fedrus wrth ymarfer sgiliau pêl rwyd ac yn addasu eu symudiadau wrth i'r ymarferion fynd yn gynyddol ymestynnol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r sgiliau hyn wrth chwarae gêm gystadleuol.
215. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adolygu a gwerthfawrogi eu perfformiadau eu hunain a rhai eu cyfoedion yn rhagorol gan arddangos dealltwriaeth gadarn o'r disgwyladau. Maent yn trafod y gwaith yn hyderus gan gynnig syniadau aeddfed ynglŷn â sut y gellir gwella'r perfformiad.
216. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn gyson mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys clybiau a thimau, ac mae hyn yn cael effaith ragorol ar eu safonau perfformiad.

#### **Nodweddion da**

217. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gweithio'n egniol a phwrpasol mewn gwersi. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r angen i baratoi ar gyfer gweithgaredd trwy gynhesu'r cyhyrau. Maent yn adnabod ac yn deall effaith ymarfer ar y corff ac yn gwybod y rhesymau dros hyn.
218. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwerthuso gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn aeddfed. Maent yn cynnig sylwadau cadarnhaol a beirniadol ac yn cyfeirio'n rhwydd a naturiol at symudiadau megis osgoi, ymestyn a loncian.

219. Mae'r holl ddisgyblion yn deall sut i godi, symud, gosod a defnyddio cyfarpar yn ddiogel a dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a diogelwch wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau.

### **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad**

Mae'r ysgol bob amser yn anelu i sicrhau cyfleoedd addysgol diddorol, heriol a chyfoethog i bob disgybl mewn awyrgylch symbylol a diogel.

Mae'r staff, y llywodraethwyr a Chyfeillion y Gorlan yn cydweithio'n glos i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol sy'n cydymffurfio â blaenoriaethau'r Awdurdod a'r rhai cenedlaethol. Manteisir i'r eithaf ar ddatblygu prosiectau arloesol cyffrous i symbylu ac ehangu gorwelion y staff a'r disgyblion.

Mae'r her i gynnal a chodi safonau'r dysgu a'r addysgu yn cael sylw parhaus fel rhan o raglen hunan arfarnu'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff.

Ystyriwyd yr arolygiad hwn fel cyfle i dderbyn barn ddiuedd ar y safonau dysgu ac addysgu, ynghyd â'r holl agweddau eraill sy'n rhan o ethos a gweinyddiad rheolaethol yr ysgol o ddydd i ddydd. Braff yw nodi bod yr arolygwyr wedi canfod nifer o ragoriaethau a nodweddion da yn yr ysgol sy'n cadarnhau canfyddiadau ein proses a'n gweithdrefnau hunan arfarnu. Edrychwn ymlaen fel tîm i ymateb yn gadarnhaol hefyd i'r argymhellion a awgrymwyd er mwyn cynnig y gorau i'n plant bob amser a gwireddu ein gweledigaeth.

Dymuna'r pennaeth ddatgan ei werthfawrogiad am y cyfle i fod yn aelod o'r tîm Arolygu fel Enwebai. Hefyd carai'r ysgol gyfan ddiolch i'r Arolygwyr am eu hynawsedd a'u proffesiynoldeb yn ystod yr Arolygiad.



## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Y Gorlan
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3 i 11
Cyfeiriad yr ysgol	Tremadog Gwynedd
Cod post	LL49 9RN
Rhif ffôn	01766 512773

Pennaeth	Rhys Meredydd Glyn
Dyddiad penodi	Rhagfyr 1992
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Megan Lloyd Williams
Arolygydd cofrestredig	Jean Marshall
Dyddiadau'r arolygiad	22 – 24 Ebrill 2008

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	8	14	13	10	16	16	17	20	106

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	5	1	5.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	1:19
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	1:8
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	21
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.12

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2007	88	96	96
Hydref 2007	87	95	95
Gwanwyn 2008	96	95	94

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	10
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B2					16
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol			6	50	44	
		Cenedlaethol		1	10	64	25	
Cymraeg: llafaredd	Aseiad athro	Ysgol				56	44	
		Cenedlaethol		1	11	64	24	
Cymraeg: darllen	Aseiad athro	Ysgol		6	6	75	13	
		Cenedlaethol		2	15	59	23	
Cymraeg: ysgrifennu	Aseiad athro	Ysgol		6	6	75	13	
		Cenedlaethol		3	19	66	12	
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol		6	6	69	19	
		Cenedlaethol		2	10	64	23	
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol		6	6	69	19	
		Cenedlaethol		2	9	66	24	

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	87.5	Yng Nghymru	80.6

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B6					14			
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	7						14	57	21
		Cenedlaethol				1	1	4	16	48	30
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	7						7	79	7
		Cenedlaethol	1			1	1	4	18	50	25
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	7						14	43	36
		Cenedlaethol				1	1	3	14	48	33
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	7						14	79	0
		Cenedlaethol				1		2	12	52	34

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	79	Yng Nghymru	74

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono  
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb  
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Arolygwyd yr ysgol dros ddau ddiwrnod a hanner gan dîm o dri arolygydd, yn cynnwys arolygydd cofrestredig, arolygydd tîm ac arolygydd lleyg.

Yn ystod y cyfnod:

- arsylwyd 26 o sesiynau, neu ran o sesiynau, gan geisio rhannu'r amser yn weddol gyfartal rhwng y dosbarthiadau;
- cynhaliwyd trafodaethau gyda'r disgyblion, y pennaeth a'r holl staff;
- archwiliwyd gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'r gwaith a wnaed ganddynt;
- gwrandawyd ar y mwyafrif o'r disgyblion yn darllen yn y ddwy iaith;
- arolygwyd samplau o waith disgyblion;
- gwnaed dadansoddiadau o ddogfennau polisi a chynlluniau'r ysgol, gan gynnwys cynlluniau byr a hir dymor yr athrawon;
- archwiliwyd y drefn cofrestru presenoldeb , cofnodion disgyblion a nodiadau asesu'r athrawon;
- rhoddwyd sylw manwl i wybodaeth gyllidol yr ysgol;
- cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol gyda'r llywodraethwyr cyn ac yn dilyn yr arolygiad;
- trefnwyd cyfarfod cyn arolygiad i'r rhieni a fynychwyd gan 18 ohonynt, a dadansoddwyd y 17 holiadur rhieni a'r ddau lythyr dderbyniwyd.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Jean Marshall Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac argymhellion Cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7. Plant dan bump, daearyddiaeth, cerddoriaeth.
Tony Bate Arolygydd Tîm	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4. Mathemateg, dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol.
William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Rhys Glyn Enwebai	Cyfrannu trwy fod yn rhan o drafodaethau'r tîm.

### *Cydnabyddiaeth*

*Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r pennaeth, staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni am eu croeso, cwrteisi a'u cydweithrediad trwy gydol cyfnod yr arolygiad.*

**Contractwr:** EPPC/Severn Crossing Cyf  
Swît H  
Tŷ Britannic  
Llandarsi  
Castell Nedd SA10 6JQ